------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(254)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid (30 munud)**

**4 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 (15 munud)**

**NDM5724 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015
Memorandwm Esboniadol

**5 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015 (15 munud)**

**NDM5723 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm rhif 4): Diwygiad i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn perthynas â diogelu chwythwyr chwiban yn y GIG (30 munud)**

**NDM5722 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth, sy'n ymwneud â gwahardd cyflogwr yn y GIG rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd sydd wedi chwythu'r chwiban o'r blaen ac sy'n darparu rhwymedïau, gan gynnwys dyfarnu iawndal, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gellir cael copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

http://services.parliament.uk/bills/2014-

15/smallbusinessenterpriseandemployment.html (Saesneg yn unig)

**7 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (15 munud)**

**NDM5725 Carl Saregant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3
Memorandwm Esboniadol fel y'i Diwygiwyd

**8 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014 (60 munud)**

**NDM5720 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r heriau recriwtio sy'n wynebu'r sector gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector a chymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynglŷn ag amrywioldeb perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn edrych ar sut y mae cartrefi gofal yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i atal derbyniadau diangen i ysbytai.

**9 Dadl ar Gyflog Cyfartal (60 munud)**

**NDM5721 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hyrwyddo Cyflog Cyfartal fel prif flaenoriaeth ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn wrth ymdrin ag achosion anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog llawn amser rhwng dynion a menywod yn fwy cul nag y mae wedi bod ers dechrau casglu cofnodion cymharol ym 1997.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith Gweinidog Cydraddoldebau Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd angen i gwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, neu wynebu dirwy o hyd at £5,000.

**10 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Mawrth 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mawrth 2015 i'w hateb ar 17 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i feddygfeydd meddygon teulu yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)2171(FM)

**2. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y dreth ystafell wely yng Nghymru? OAQ(4)2188(FM)

**3. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganolfannau Cymraeg i Oedolion? OAQ(4)2174(FM)**W**

**4. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo ynni adnewyddadwy? OAQ(4)2187(FM)

**5. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)2176(FM)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd sefydliadau addysg uwch o ran datblygu economi Cymru? OAQ(4)2175(FM)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o ofal plant yng Nghymru? OAQ(4)2186(FM)

**8. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ofalwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2181(FM)

**9. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio locwms yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)2184(FM)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A oes dyddiad wedi'i gytuno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros ganiatáu cynlluniau datblygu ynni i brosiectau hyd at 350MW, yn dilyn cyhoeddi Pwerau at Bwrpas? OAQ(4)2180(FM)**W TYNNWYD YNOL**

**11. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo manteision system chwistrellu dŵr adeg tân? OAQ(4)2183(FM)

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A yw'n bolisi Llywodraeth Cymru i geisio datganoli amodau gwaith a chyflogau athrawon? OAQ(4)2185(FM)**W**

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd coetiroedd cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)2178(FM)

**14. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau adnoddau yn y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2179(FM)**W**

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog pobl i ymweld â chanol trefi yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)2170(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 24 Mawrth 2015 a dydd Mercher 25 Mawrth 2015**
**Toriad: Dydd Llun 30 Mawrth 2015 – Dydd Sul 19 Ebrill 2015**
**Dydd Mawrth 21 Ebrill 2015 a dydd Mercher 22 Ebrill 2015**
**Dydd Mawrth 28 Ebrill 2015 a dydd Mercher 29 Ebrill 2015**

---

**Dydd Mawrth 24 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y diweddaraf ar gamau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cryfhau Polisi Caffael (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Adolygiad o'r Diwydiant Llaeth (30 munud)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Cymru) 2015 (30 munud)
- Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cymwysterau Cymru (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol ar Fesur Cymwysterau Cymru (5 munud)

**Dydd Mercher 25 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**NNDM5713**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyfraniad economaidd diwydiant dur Cymru a'r miloedd o swyddi y mae'n eu cefnogi.

2. Yn gresynu at y ffaith bod y mewnforion tramor sy'n llifo i mewn i'r farchnad wedi creu sefyllfa anghyfartal.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig a fydd yn arwain at sefyllfa lle bydd pob proses gaffael llywodraeth mewn perthynas â barrau atgyfnerthu dur carbon yn bodloni safon cyrchu cyfrifol BES 6001.

Mae'r Siarter Dur Cynaliadwy Prydeinig ar gael yma: http://www2.eef.org.uk/NR/rdonlyres/04940D4A-E15E-43A5-8C41-51CD7EE4E13F/24323/TheCharterforBritishSustainableSteel1.pdf (Saesneg yn unig).

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) (5 munud)
    - Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) (5 munud)
    - Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru): Darparu Difidend Datganoli ar gyfer Cymru gyfan (30 munud) – *Gohiriwyd ers 18 Mawrth 2015* (30 munud)

**Dydd Mawrth 28 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ran 2 yr ymchwiliad i Arferion gorau o ran y gyllideb – Cynllunio a gweithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)